# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2025

Amser: 09.01 - 09.18

# Remote / Private

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Trefn Busnes**

**Busnes yr Wythnos Hon**

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni (~~45~~ 30 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.35pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 1 Ebrill 2025**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (45 munud)

**Dydd Mawrth 29 Ebrill 2025**

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (60 munud)

Gofynnodd Heledd Fychan a yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Datganiad Llafar yr wythnos nesaf ar effaith Datganiad Gwanwyn Llywodraeth y DU ar Gymru. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ystyried hyn.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd i drefnu'r eitemau a ganlyn ar Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 7 Mai 2025 -**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Ymchwiliad dilynol i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

Nododd y Llywydd y ddadl sydd ar ddod ar adroddiad cyntaf Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 2 Ebrill. Dywedodd y bydd, pe bai unrhyw welliannau yn cael eu cyflwyno i'r cynnig, yn penderfynu a ddylid eu dethol i'w trafod o dan Reol Sefydlog 12.23(iii) yn seiliedig ar eu cynnwys a'r cylch gwaith y cytunwyd arno i'r Pwyllgor.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch amserlen y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor Busnes ymateb interim y Pwyllgor a chytunodd i ddychwelyd i ystyried yr amserlen ymhellach yn y cyfarfod dilynol.

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau o 16 Mai 2025 i gyflwyno adroddiad;
- cyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 2) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, i graffu arno, gyda dyddiad cau o 16 Mai 2025 i gyflwyno adroddiad.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn gwneud cais am slot ar gyfer dadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu dadl ar ddeiseb P-06-1365. *Ail-agor llinellau rheilffordd i gysylltu gogledd a de Cymru,* a nododd ddiweddariadau ar ddeisebau eraill.

### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn gwneud cais am slot cyfarfod amgen

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad iddo gwrdd fore Mawrth 6 Mai 2025.

## 6 Amserlen y Senedd

### 6.1 Dyddiadau Toriadau

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau ar gyfer toriad hanner tymor yr hydref 2025 a thoriad y Nadolig 2025, a chytunwyd ar ddyddiadau dros dro ar gyfer hanner tymor y gwanwyn a’r Pasg yn 2026.

## 7 Trefniadau Cyflwyno

### 7.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Pasg

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn, cwestiynau ysgrifenedig a gwelliannau i Filiau yn ystod toriad y Pasg, a newidiadau i derfynau amser o ganlyniad i wyliau banc mis Mai.

**Unrhyw fater arall**

**Fformat cyfarfodydd yn y dyfodol**

Trafododd Rheolwyr Busnes fformat cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes yn y dyfodol a chytunodd y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y cnawd o'r wythnos nesaf, gydag opsiwn hybrid ar gael.

Cyfeiriodd y Llywydd at y nifer uchel o faterion gweithdrefnol sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor dros y 12 mis sy’n weddill o'r Senedd hon, a nododd y gallai fod angen i'r Pwyllgor Busnes ystyried defnyddio slot cyfarfod amgen yn rheolaidd ar gyfer gwaith gweithdrefnol.

**Darllenfa Siambr Hywel**

Trafododd y Pwyllgor Busnes y defnydd posibl ar gyfer ail ddarllenfa yn Siambr Hywel a nododd y byddai'r Llywydd yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr opsiynau a'r gost o ddarparu un.